

## ADDUNEDAU BLWYDDYN NEWYDD

---

---

### **Gweddi agoriadol:**

Bendigwn dy enw am gael cerdded i mewn i'r flwyddyn newydd yng ngoleuni ac yn ysbryd gŵyl y Nadolig sy'n cyhoeddi mai Duw Immanuel, Duw gyda ni, wyt ti yn Iesu Grist. O Arglwydd, anrhydedda ni â'th bresenoldeb sanctaidd, a bendithia ni ag ysbryd dy addoli mewn prydfferthwch sancteiddrwydd. Gofynnwn hyn yn enw dy Fab annwyl a'n Gwaredwr Iesu Grist. Amen.

**Emyn:** 90 – *O am ddechrau blwyddyn newydd*

### **Llefarydd:**

Blwyddyn newydd – cyfle newydd i adnewyddu ein ffydd a'n haddunedau fel Cristnogion. Mae dechrau blwyddyn yn adeg ardderchog i wneud hynny. Rydym newydd ddathlu'r newyddion da fod Duw yn Dduw Immanuel, yn Dduw gyda ni yn Iesu Grist, ond y cwestiwn yw, a fyddwn ni gyda Duw ac yn cadw ei ofynion sanctaidd eleni? Dywedwyd lawer gwaith mai un o'r gwahaniaethau mawr rhwng Duw a dyn yw fod Duw yn cadw at ei Air ac yn ffyddlon i'w addewid, tra bo dyn yn torri ei air ac yn methu.

*'Gwnes addunedau fil  
I gadw'r llwybyr cul  
Ond methu 'rwy.'*

Gŵr a wyddai am fethiannau bywyd oedd Jacob. Cyflwynir ef inni yn Llyfr Genesis fel un na feddyliai am neb ond am ei les ei hun. Gwalch drwg ydoedd, ac nid oedd yn ormod ganddo gymryd mantais ar wendid ei frawd Esau trwy ddwyn oddi arno ei enedigaeth-fraint. I gyflawni hyn, twyllodd ei dad, a oedd erbyn hynny yn hen ŵr, i roi iddo y fendith a berthynai i'w frawd.

Ond, er gwaethaf ei bechod, ni ollyngodd Duw ei afael ar Jacob. Un noson, wrth gysgu yn yr awyr agored, a charreg yn obennydd i'w

ben, cafodd Jacob freuddwyd ryfedd. Gwelodd ysgol yn esgyn o'r ddaear i'r nefoedd, ac angylion yn dringo a disgyn ar hyd-ddi. Gadewch inni wrando ar yr hanes yn llawn yn Llyfr Genesis.

**Darlleniad:** Genesis 28: 10–22

**Gweddïwn:**

(a)

Ein Tad nefol, cynorthwya ni yn nhawelwch dy dŷ i ymdawelu yn dy bresenoldeb sanctaidd. Rydym yn ymwybodol o bresenoldeb ein gilydd, ac yn gwerthfawrogi cymdeithasu â'n gilydd yn fawr. Gwna ni hefyd yn ymwybodol o'th bresenoldeb di, ac o wirionedd addewid Iesu Grist i'w ddisgyblion, y byddai yno yn eu canol, *'oherwydd lle y mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw i, yr wyf yno yn eu canol hwynt'*.

Yn ein gweddïau, cynorthwya ni hefyd i blygu yn ostyngedig, ac i'th addoli yn ôl dy haeddiant. Ti, Dduw, yw Brenin y brenhinoedd ac Arglwydd yr arglwyddi. Eilunod yw holl dduwiau'r bobloedd, ond ti yw'r unig wir a'r bywiol Dduw. Y mae anrhydedd a mawredd o'th flaen, a gweddus i ni yw rhoddi mawl ac addoliad i ti.

(b)

Yn ein gweddïau, cynorthwya ni i gyffesu ein pechodau, i gredu yn dy faddeuant, ac i droi dalen newydd fel y byddwn yn ddisgyblion gwell i'th Fab Iesu Grist. Cyffeswn inni bechu i'th erbyn mewn meddwl, gair a gweithred, a thrwy hynny, ddilorni dy enw sanctaidd a brifo ein gilydd a'n cyd-ddynion. O Dad, trugarha wrthym, ac yn enw Crist dy Fab a'i aberth drosom ar y pren, maddau inni ein holl bechodau, ac ymgeledda ni â'th gariad a'th ras.

*'Gras ddaeth â'm traed yn ôl  
I lwybrau'r nefoedd wen;  
A chymorth newydd rydd bob awr  
I ddwyn y daith i ben.'*

(c)

Ar ddechrau blwyddyn newydd, rydym yn ymwybodol iawn, ein Tad, o dreigladd amser ac o freuder ein bywyd. Ddoe yn blentyn bach, heddiw yn ganol oed, ac yfory yn hen:

*'Mae mwynder cnawd a byd yn myned heibio,  
Diflanna oes fel breuddwyd gwael ei lun;  
Ond er pob peth sy'n newid ac yn cilio,  
Tydi, O Grist, y sydd o hyd yr un.'*

Bendigwn dy enw am y cysur mawr dy fod yr un heddiw, fel ag erioed, yn dy gariad tuag atom, a'th fod ar ddechrau blwyddyn newydd yn Dduw Immanuel yn Iesu Grist – yn Frawd ac yn Gyfaill inni ymhob gofyn, ac yn Dduw ac yn Geidwad i'n cadw rhag pob drwg.

Ni wyddom, ein Tad, yr hyn sydd o'n blaenau y flwyddyn newydd hon. Efallai y cawn wynfyd ac iechyd, ond efallai adfyd a phrofedigaethau. O Dad, dyro inni ysbryd ymddiriedaeth y byddi gyda ni ar hyd y daith, ac ysbryd doethineb i gydio yn dy law, ac i lynu'n ffyddlon wrthyt. Er mwyn Iesu Grist. Amen.

**Emyn:** 71 – *Yn dy law y mae f'amserau*

**Gweddiwn:**

(a)

Ar ddechrau blwyddyn newydd, gweddiwn dros ein hanwyliaid, ein cyd-aelodau, a phawb, ein Tad, sy'n methu gweld a theimlo dy law i'w tywys. Dyro iddynt ffydd i gredu na wnei di byth eu gadael yn amddifad, ac na all dim eu gwahanu oddi wrth dy gariad anfeidrol yn Iesu Grist.

Cyflwynwn i'th ofal tyner bawb sy'n dechrau'r flwyddyn dan gwmwl profedigaeth colli anwyliaid. Yn dy drugaredd, cod eu golygon atat ti dy hun yn dy nefoedd. O Dad, sych eu dagrau drwy eu cysuro â'th gariad, a llanw eu calonau â'th dangnefedd.

(b)

Diolchwn, ein Tad, am ysbytai ein gwlad, a phob cartref sy'n agored i gynorthwyo'r gwan, yr unig a'r tlawd. Diolchwn am law meddyg a nyrs i estyn meddyginaeth dy gariad.

*'Llaw a deall dyn perffeithia,  
Er iachâd  
A rhyddhad,  
Nefol Dad, i dyrfa.'*

Wrth inni weddio dros ein cyfeillion, gwna ni, ein Tad, yn ddiolchgar am fendith iechyd, am fwynhad bywyd, am gysuron cartref, am gariad anwyliaid a theyrngarwch cyfeillion. Gwna inni sylweddoli mor dda yw hi arnom mewn gwirionedd, ac mor llwyr ddibynnol yr ydym arnat ti.

Derbyn felly ein diolch am holl fendithion bywyd, ac am y fendith fwyaf o gael dy Fab Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd ein bywyd. Ac iddo ef y byddo'r clod a'r gogoniant, yn awr ac yn oes oesoedd. Amen.

**Gweddi'r offrwm:**

Ein Tad trugarog, caniatâ dy fendith ar ein hoffrwm, ac arnom ni dy blant. Er mwyn Iesu Grist. Amen.

**Emyn:** 581 – *O Arglwydd, dyro awel*

**Llefarydd:**

Er bod ein bywydau fel Jacob yn llawn methiannau, ni olyga hynny y dylem roi'r ffidil yn y to. Yn hytrach, dylem **edifarhau** am ein pechodau gerbron Duw, **ymdiried** yn ei gariad diymollwng tuag atom yn Iesu Grist, ac **ymdrechu** trwy nerth ei ras i adnewyddu ein haddunedau i'r Arglwydd.

Rydym yn cysylltu addunedau Cristnogol gan amlaf â'r gwasanaeth pan gawsom ein derbyn yn aelodau eglwysig. Cawsoch eich derbyn flynyddoedd maith yn ôl, o bosibl, ac rydych chi a minnau wedi siomi Duw a ni ein hunain lawer gwaith. Ond gobeithiwn ein bod yn credu fod Duw yn ymwneud â ni, nid yn ôl ein methiannau, ond yn

ôl ei drugaredd tuag atom yn Iesu Grist. Nid yw addunedau i'w gwneud yn ysgafn ac yn ddifeddwl. Dywed Llyfr y Pregethwr wrthym:

*'Y mae'n well iti beidio ag addunedu na pheidio â chyflawni'r hyn yr wyt wedi ei addunedu.'*

Am hynny:

*'Bydded geiriau fy ngenau'n dderbyniol gennyf, a myfyrdod fy nghalon yn gymeradwy i ti, O Arglwydd, fy nghraig a'm prynwr.'*

### **Llefarydd:**

Rydym wedi cyfeirio at yr adeg pan gawsom ein derbyn yn aelodau, a'r addunedau a wnaethom bryd hynny. Tybed a ydych yn eu cofio? Gadewch inni ailedrych ar rai ohonynt, ac ystyried gyda'n gilydd yr addunedau canlynol:

Yr adduned gyntaf yw 'mynychu moddion gras, a threulio'r Sul mewn modd sy'n deilwng o'r Efenngyl'.

*'Cofia'r dydd Saboth, i'w gadw'n gysegredig.'*

*'Yn ôl ei arfer aeth i'r synagog ar y dydd Saboth.'*

*'Gadewch inni ystyried sut y gallwn ennyn yn ein gilydd gariad a gweithredoedd da, heb gefnu ar ein cydgynulliad ein hunain, yn ôl arfer rhai.'*

Mae cymal olaf yr adnod, sef *'yn ôl arfer rhai'*, yn datgelu fod anffyddlondeb i wasanaethau'r Eglwys yn dyddio'n ôl i gyfnod yr Apostol Paul. Yn eglwysi ein gwlad, ychydig iawn o aelodau sy'n ffyddlon. Y mae llawer mwy yn anffyddlon, ac mae rhai aelodau, gwaetha'r modd, yn gwbl ddiarth.

Yn y gwasanaeth hwn, fodd bynnag, nid ein lle ni yw beirniadu ein cyd-aelodau ond, yn hytrach, addunedu i fynychu oedfaon yr Eglwys yn ffyddlonach. Lluniodd y Ficer Prichard nifer o benillion am

sancteiddrwydd y Sul a'r pwysigrwydd o'i neilltuo i addoli Duw. Dyma bennill sy'n crynhoi'r neges inni:

*'Dydd i'w dreulio mewn sancteiddrwydd,  
Dydd i weithio gwaith yr Arglwydd.  
Dydd i ddarllen a gweddïo,  
Dydd i addoli Duw a'i gofio.'*

Yn ogystal, mae'r Sul yn ddiwrnod gŵyl i ddathlu buddugoliaeth ein Gwardwr Iesu Grist ar bechod, angau a'r bedd. Am hynny, nid baich a dyletswydd diflas yw'r Sul ond profiad i'w fwynhau, a chyfle i ddathlu mewn llawenydd. Gadewch inni ddangos hyn yn ein haddoliad, ac addunedu i dreulio'r Sul mewn modd sy'n deilwng o'r Efengyl.

#### **Llefarydd:**

Yr ail adduned yw 'darllen y Beibl yn gyson, a gweddïo'n ddi-baid'. Clywch adnodau sy'n ein hannog i weddïo:

*'Felly gadewch inni nesáu mewn hyder at orsedd gras, er mwyn derbyn trugaredd a chael gras yn gymorth yn ei bryd.'*

*'Y mae'r Ysbryd yn ein cynorthwyo yn ein gwendid. Oherwydd ni wyddom ni sut y dylem weddïo, ond y mae'r Ysbryd ei hun yn ymbil trosom ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau.'*

Yr un modd, y mae'r adnodau canlynol yn ein hannog ni i ddarllen y Beibl:

*'Fel babanod newydd eu geni, blysiwch am laeth ysbrydol pur, er mwyn i chwi drwyddo gynyddu i iachawdwriaeth.'*

*'Os arhoswch chwi yn fy ngair i, yr ydych mewn gwirionedd yn ddisgyblion i mi ...'*

Tybed beth yw eich ymateb i'r adduned hon i ddarllen y Beibl ac i weddïo? Efallai y teimlwch ei bod hi'n adduned addas i weinidog neu

offeiriad. Wedi'r cyfan, y mae hyn yn rhan o'u gwaith, a chânt eu talu i wneud hynny! Nid yw hyn, fodd bynnag, yn golygu nad oes rhaid ichi ddarllen y Beibl a gweddïo. Onid cymwynas fawr y diwygwyr Protestannaidd fel Martin Luther a John Calfin oedd gwneud y Beibl yn llyfr pawb? Nid llyfr yr Eglwys i'w ddarllen gan yr offeiriad a'r gweinidog yn unig yw'r Beibl, ond llyfr yr aelwyd i'w ddarllen gan yr holl aelodau.

Yn yr un modd, pwysleisiodd y diwygwyr Protestannaidd fod pob credadun yn rhydd i weddïo yn enw Iesu Grist. Pan ddarllenwn y Beibl, mae Duw yn siarad â ni. Wrth weddïo rydym ni yn siarad â Duw, ac yn agor ein calonnau iddo. Beth am addunedu o'r newydd i sgwrsio â Duw? Y mae'r fendith sy'n deillio o hynny, fel y tystia'r bardd Islwyn, yn anfesuradwy:

*'Dyma'r ddolen sydd yn uno gwendid dyn â gallu'r lôr,  
Dyma'r traeth i roi ein llestri ar y dwyfol fythol fôr;  
Dyma'r aber lle cyferfydd afon dymuniadau dyn  
A diderfyn fôr trugaredd sydd â'i led fel Duw ei hun.'*

### **Llefarydd:**

Y drydedd adduned yw 'dangos a gweithredu cariad Cristnogol yn ein perthynas â'n gilydd'.

*'Am hynny, fel etholedigion Duw, sanctaidd ac annwyl, gwisgwch amdanoch dynerwch calon, tiriondeb, gostyngeiddrwydd, addfwynder ac amynedd ... os bydd gan rywun gŵyn yn erbyn rhywun arall, fel y maddeuodd yr Arglwydd i chwi, felly gwnewch chwithau.'*

Mae'r adnod hon yn ein hatgoffa o'r wedd ymarferol sydd i'r bywyd Cristnogol. Yr ydym i adlewyrchu cariad yr Arglwydd Iesu Grist yn ein perthynas â'n gilydd, ac yn ein parodrwydd i weithredu ei gariad tuag at eraill. Yn y nofel *Rhys Lewis* gan Daniel Owen, dywed Mari Lewis wrth ei mab Rhys:

*'Ceisia gael crefydd y bydd ei chynfas yn lapio rhywun arall heblaw ti dy hun!'*

Onid yw'n gyngor da i ninnau hefyd? Nid ymboeni'n ddiwedd am ein hiachawdwriaeth bersonol y mae'r Cristion, ond ymboeni am eraill, a'u helpu mewn ysbryd cariad ac er mwyn Iesu Grist. Crynhoir hyn yn gampus yn y cwpled Saesneg:

*'Live for self, you live in vain,  
Live for Christ, you live again.'*

**Llefarydd:**

Y bedwaredd adduned yw 'estyn meddyginiaeth yr Efengyl i'n hoes trwy dystiolaeth bersonol o'n ffydd yn Iesu Grist'.

*'Byddwch yn barod bob amser i roi ateb i bob un fydd yn ceisio gennych gyfrif am y gobaith sydd ynoch. Ond gwnewch hyn gydag addfwynder a pharchedig ofn, gan gadw eich cydwybod yn lân.'*

Mae'r adnod hon yn ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb i fod yn dystion i'r Efengyl – *'Byddwch yn barod bob amser i roi ateb ...'* Yng Nghymru, tueddwn i feddwl mai gweinidogion ac offeiriaid yn unig sydd i dystio am Iesu Grist. Yn ei lythyr at ymerawdwr Rhufain, dywedodd Pliny, llywodraethwr Bithynia, am Gristnogion yr ail ganrif:

*'Y mae'r pla wedi lledaenu trwy ddinasoedd, pentrefi ac ardaloedd gwledig. Dydyn nhw ddim yn gwybod sut i fod yn Gristnogion tawel.'*

Y mae'r gwaith o efengylu yng Nghymru heddiw yn dasg na ellir ei chyflawni gan weinidogion ac offeiriaid yn unig. Mae bod yn dyst i'r Arglwydd Iesu Grist yn ffrainc ac yn gyfrifoldeb i bob crediniwr, ac ar ddechrau blwyddyn newydd estynnir cyfle newydd i bawb ohonom i wneud ein rhan i ennill Cymru i Grist.

**Llefarydd:**

Y bumed adduned yw 'cyfrannu'n deilwng i drysorfa'r Eglwys, a chefnogi mudiadau sy'n lledaenu'r Efengyl, ac yn cynorthwyo'r tlawd, y newynog a'r diymgeledd.'

*‘Ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr.’*

*‘Os yw brawd neu chwaer yn garpiog ac yn brin o fara beunyddiol, ac un ohonoch yn dweud wrthynt, “Pob bendith ichwi; cadwch yn gynnes a mynnwch ddigon o fwyd”, ond heb roi dim iddynt ar gyfer rheidiau’r corff, pa les ydyw? Felly, y mae ffydd os nad oes ganddi weithredoedd, yn farw ynddi ei hun.’*

*‘Cyfrannwch at reidiau’r saint.’*

*‘Un peth sydd ar ôl i ti ei wneud: gwerth y cwbl gennyt, a rhanna ef ymhlith y tlodion.’*

Mae’r adnodau hyn yn ein hatgoffa fod Cristnogaeth yn ymwneud, nid yn unig â’n calonnau a’n meddyliau, ond hefyd â’n harian, a’n parodrwydd i’w rhannu ag eraill. Y mae’r rhan fwyaf ohonom yn hoff o gael arian i’w gwario, ac i’w cadw yn y banc! Y mae arian fel tân. Mae naill ai’n was defnyddiol neu’n feistr creulon, ac mewn oes faterol, mae’n hawdd iawn syrthio i grafangau ariangarwch. Onid yw’r adnodau canlynol mor wir heddiw ag erioed?

*‘Gwell yw ychydig gydag ofn yr Arglwydd, na thrysor mawr a thrallod gydag ef.’*

*‘Gwraidd pob math o ddrwg yw cariad at arian.’*

*‘Nid yw bywyd neb yn dibynnu ar feddiannau.’*

Y meddiant gorau y gallwn ei gael yw ysbryd hael a chalon barod i roi o’r hyn a gawsom yn rhad, ac i wneud hynny gan gofio yn ddiolchgar i’r Arglwydd Iesu Grist ddod i’r byd:

*‘nid i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer.’*

**Llefarydd:**

Yr adduned olaf dan ystyriaeth heddiw yw cyfranogi'n deilwng o sacrament Swper yr Arglwydd.

*'Bydded i ddyn ei holi ei hunan, ac felly bwyta o'r bara ac yfed o'r cwpan.'*

*'Gwnewch hyn er cof amdanaf.'*

Mewn rhai rhannau o Dde Cymru, roedd hi'n arferiad i alw Sul y Cymun yn Sul y Cwrdd Mawr, ac ystyrid cyfranogi o sacrament yr Arglwydd yn uchafbwynt i oedfaon y mis. Ymdrechai'r holl aelodau i fod yn bresennol, ac mewn rhai eglwysi byddai'r aelodau a esgeulusai'r Cymun am dri mis yn olynol yn colli eu haelodaeth.

Cyn Sul y Cymundeb, byddai'r aelodau'n cynnal seiat arbennig ar noson waith i'w paratoi eu hunain yn feddyliol ac yn ysbrydol ar gyfer y wledd sanctaidd. Oni ddylem ninnau wneud yr un modd? Y mae cyfranogi o Swper yr Arglwydd yn ffrainc aruchel sy'n galw arnom i'n holi ein hunain yn weddigar, ac i'n paratoi ein hunain i dderbyn o'r fendith sydd y tu hwnt i eiriau.

Tybed a wnawn gadw ein haddunedau i'r Arglwydd eleni? Gorffennwn gyda dwy anogaeth daer. **Ymddiriedwch** yng nghariad diymollwng Duw yn Iesu Grist, ac **ymdrechwch** trwy nerth ei ras. Amen.

**Emyn:** 767 – *Cymer, Arglwydd, f'einioes i*

**Y Fendith:**

Bydded i'r Arglwydd dy fendithio a'th gadw;  
bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnat a bod yn drugarog wrthyf;  
bydded i'r Arglwydd edrych arnat, a rhoi iti heddwch. Amen.